# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL 235, NEUADD Y DDINAS (YSTAFELL GYFARFOD CYNGHORWYR) – NEUADD Y DDINAS DYDD MERCHER, 8 CHWEFROR 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | M B Lewis | R V Smith |
| L V Walton | | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd J A Raynor – Aelod y Cabinet dros Addysg

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Doyle, C R Evans a/ac H M Morris

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Y Gwasanaethau Democrataidd |

43 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

44 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2017 yn gofnod cywir, yn amodol ar newid dyddiad cofnod rhif 38 i ddarllen 9 Tachwedd.

45 **CYNIGION AR GYFER YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC A RHIENI. (LLAFAR) (JANE WHITMORE)**

Dywedodd y cadeirydd nad oedd Jane Whitmore wedi gallu mynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf.

46 **CYNLLUN GWAITH.**

Trafododd y pwyllgor faterion ynghylch ei ymchwiliad parhaus i ba mor barod yw pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet at drafodaethau y cafodd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Leoedd ynghylch y mater hwn. Gofynnodd iddo ef neu aelod o'i staff ddod i

gyfarfod yn y dyfodol i nodi'r problemau yr oeddent wedi'u hwynebu wrth recriwtio prentisiaethau.

Cyfeiriwyd at y sylwadau blaenorol gan gynrychiolydd o Goleg Abertawe ynghylch lefelau llythrennedd a'u trafod, a gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth ac eglurhad gan y coleg.

Gofynnodd y PCC am eglurhad ynghylch a oedd disgyblion ysgol yn dal i gael profion clyw a llygaid yn yr ysgol, gan fod problemau â chlyw a golwg yn gallu effeithio ar gynnydd plant yn y dosbarth.

**PENDERFYNWYD** ar ôl ychwanegu'r pethau uchod y dylid nodi'r cynllun gwaith a ddiwygiwyd uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.43 pm

**CADEIRYDD**